

RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithiol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ddydd Mawrth 8 Chwefror 2022.

Presennol: Y Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd), Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg)(Is-gadeirydd), Y Cynghorwyr, John Griffith, Richard Griffiths, Gwilym.O. Jones, Dylan Rees, Margaret Roberts, Alun Roberts.

Wrth Law: Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP), Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (AO), Rheolwr Adfywio (DLI, Rheolwr Tîm TG (MH), Rheolwr Risg ac Yswiriant (JJ), Peirianydd Diogelwch Seibr TGCh (CCT), Swyddog Pwyllgor (ATH)

Ymddiheuriadau: Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid)

Hefyd yn Breennol: Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol) Jeremy Evans (Archwilio Cymru), Mathew Brushett (Archwilio Cymru), Nick Selwyn (Archwilio Cymru) Yvonne Thomas (Archwilio Cymru), Bethan Owen (Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifo), Marc Davies (Rheolwr Isadeiledd TG), Nannette Williams (Prif Archwilydd), Andrew Lewis (Uwch Archwilydd), Nia Rogers (Uwch Archwilydd), Gwyndaf Dale (Hyfforddai Diogelwch ac Awtomatiaeth).

(2:00 p.m. - 4:40 p.m.)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	1 Datganiad o Ddiddordeb
	Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol
PENDERFYNIAD	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr, 2021 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 Diweddariad ar Recriwtio Aelodau Lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi'r cynnydd a wnaed o ran recriwtio'r tri aelod lleyg ychwanegol y mae eu hangen ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o fis Mai 2022 ymlaen.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2022/23
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd derbyn a nodi'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022/23 ac i anfon y Datganiad ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylwadau pellach.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	5 Archwilio Allanol: Comisiynu Lleoliadau mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hyn
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad gan Archwilio Cymru mewn perthynas â chomisiynu lleoliadau cartrefi gofal a diolchwyd i Mr Jeremy Evans am y cyflwyniad a'r pwyntiau a gadarnhawyd.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 Archwilio Allanol: Llythyr mewn perthynas â Threfniadau Gwrth-Dwyll
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi'r materion a godwyd gan Archwilio Cymru ynghyd â'r cynnydd a waned wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a nwaed gan Archwilio Cymru mewn perthynas â gwrth-dwyll.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	7 Archwilio Allanol: Adfywio Canol Trefi yng Nghymru - Argymhellion ac Ymateb
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad gan ArchwilioM Cymru mewn perthynas ag adfywio canol trefi yng Nghymru ac i dderbyn a nodi'r ymateb a ddarparwyd gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd gan gynnwys yr hunan-asesiad o gynnydd.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	8 Archwilio Allanol: Crynodeb Archwilio Cyngor Sir Ynys Môn 2021
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi'r Adroddiad Crynodeb Archwilio Blynyddol ar gyfer 2021.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	9 Archwilio Allanol: Rhaglen ac Amserlen Archwilio Cymru - Diweddariad Chwarterol CSYM Rhagfyr, 2021
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi'r diweddariad chwarterol ar Raglen Archwilio Cymru a'r Amserlen fel ar 31 Rhagfyr, 2021.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	10 Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2020/21
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi'r diweddariad chwarterol ar Raglen Archwilio Cymru a'r Amserlen fel ar 31 Rhagfyr, 2021.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	11 Diweddariad Archwilio Mewnol
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi darpariaeth Sicrwydd Archwilio mewnol a'r blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	12 Blaen Raglen Waith
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi'r mân addasiadau i'r Blaen Raglen Waith a gymeradwywyd ar gyfer 2021-22.

EITEM GYFRINACHOL

RHIF YR EITEM A'R PWNC	14 Diweddariad Rheoli Risg
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi'r gwelliannau a wnaed mewn perthynas â rheoli risg ac yn enwedig y gofrestr risg strategol ac i gadarnhau bod y Pwyllgor yn cymryd sicrwydd bod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi cydnabod ai fod yn rheoli'r risg er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.

EITEM GYFRINACHOL

RHIF YR EITEM A'R PWNC	16 Adroddiad Diogelwch Seiber Blynyddol 2020/21
------------------------	--

PENDERFYNIAD	Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol Diogelwch Seiber ar gyfer 2021 a nodi ei gynnwys.